



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 5 Medi 2017 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 5 September 2017 at 6.30pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors** Richard Jones (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Clive Davies, Debra Griffiths, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill (*gadawodd/left at 7.00pm*), Trystan Phillips, Shan Williams.

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod cyntaf yn dilyn hoe'r haf. Cydymdeimlodd gyda'r Cyng. Elaine Evans yn ei phrofedigaeth o golli tad yn ddiweddar. Llongyfarchwyd y Cyng. Wyn Jones (Wyn Ail Symudiad) ar gael ei wahodd i Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ynys Môn yn ystod yr haf. Yn yr un modd, llongyfarchwyd y Maer am drefnu gyda'i bwyllgor wythnos o weithgareddau cyffrous gan ddiweddu gyda charnifal llwyddiannus dros ben pan diddanwyd miloedd o ymwelwyr a thrigolion lleol ar Gae Chwarae Brenin Siôr Sed.**

The Mayor, Cllr Richard Jones, welcomed all to the meeting following the summer recess. He offered the members' condolences to Cllr Elaine Evans whose father had recently passed away. Cllr Wyn Jones was commended on being invited to the Circle of Druids at the National Eisteddfod of Wales on Ynys Môn during the summer. The Mayor was congratulated on steering the Carnival committee towards a most successful week of events culminating in the carnival which entertained thousands of visitors and locals alike on King George 5<sup>th</sup> Playing Field.

## 2. Cyflwyniad gan y Prif Arolygydd Steve Davies, Heddlu Dyfed-Powys.

Presentation by Chief Inspector Steve Davies, Dyfed-Powys Police.

**Croesawodd y Maer y Prif Arolygydd a hefyd yr Arolygydd Roger Smith i'r cyfarfod a gwahodd hwy i gyflwyno eu neges. Cyhoeddodd y PA ei dîm o reolwyr hÿn a gwyntyllodd ei gynlluniau i gydweithio gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dafydd Llywelyn. Prif droseddau'r ardal yw cyffuriau, lladrata a thrais yn y gymuned. Mae'r cynllun "Farm Watch" wedi ei lansio yn dilyn cyfres o ladradau o fewn y gymuned amaethyddol. Yn yr un modd mae cynllun "Speed Watch" wedi ei gyflwyno, er yn anffodus nid oes timau wedi eu sefydlu yn Aberteifi ar hyn o bryd. Mae angen tîm o chwech i weithredu'r cynllun a chynigir hyfforddiant a chyfarpar angenrheidiol. Codwyd y broblem gan aelodau o barcio ar balmentydd Ffordd Aberystwyth a hefyd cyflymder cerbydau ar y briffordd A487 ger Heol Caemorgan a Ffordd Gwbert. Ymatebodd y PA gan ddweud bod angen rhagor o wybodaeth am y troseddwyd a gellir gosod faniau perthnasol ger y manau hyn. Mae'r safle "Go Safe" yn ddefnyddiol. Anogwyd aelodau i fynychu cyfarfod nesaf PACT ar 20 Medi. Diolchodd y Maer i'r ddau swyddog am eu cyflwyniad pwrpasol.**

The Mayor welcomed the Chief Inspector and also Inspector Roger Smith to the meeting and invited them to give their informal presentation. CI Davies outlined his senior management team and highlighted his delivery plan in cooperation with the Police & Crime Commissioner Dafydd Llywelyn. The main issues which remain fairly static in the area were the use of unlawful drugs, minor theft and violence within the community. The Farm Watch pilot scheme was now in place following a spate of thefts from agricultural premises. Likewise, the Speed Watch scheme would be introduced in the area, but unfortunately volunteers were few and far between in Cardigan. A team of six would be needed to implement the scheme with relevant training and equipment provided. The continuing problem of pavement parking of vehicles on the Aberystwyth Road was raised by members as was the speed of vehicles at the Caemorgan junction of the A487 and Gwbert Road. The CI responded stating that road police units need more information regarding anti-social driving and could deploy vans at offending locations. The "Go Safe" website is also a useful tool. Members were encouraged to attend the next PACT meeting on 20 September. The Mayor thanked both officers for their useful presentation.

### 3. Ymddiheuriadau / Apologies:

Y Cyng. / Cllrs Graham Evans (*gwyliau/holidays*), Elaine Evans (*gwyliau/holidays*), Marilyn Farmer, Catrin Miles (*gwyliau/holidays*).

### 4. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Tud./Page 1270, eitem/item 9 (Telemat)</i>

### 5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 4 Gorffennaf.

Confirmation of Minutes of 4 July Council Meeting.

**Tud. 1261, eitem 10(a)(i): Disgwyl “ymateb” oddi wrth Ken Skates nid “trefnu cyfarfod” sy’n gywir.**

Page 1261, item 10(a)(i): A “response” is expected from Ken Skates, not “a meeting” as recorded.

**Gyda’r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips bod cofnodion 4 Gorffennaf yn gywir.**

With the above amendment, Cllr Debra Griffiths proposed that the 4 July minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Trystan Phillips.

### 6. Materion yn codi o’r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

**Tud. 1263, eitem 12 (*Bachan Deche*): Mae cyfarpar y plant wedi eu peintio ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed. Diolch i’r holl wirfoddolwyr am gyflawni’r gwaith mewn da bryd.**

**Ar yr un trywydd, mae llinellau’r cyrtau tennis wedi eu peintio erbyn hyn.**

**Tud. 1263, eitem 12 (*Cae Chwarae Pentop*): Mae’r borfa wedi ei thorri ar y cae chwarae, a chynhaliwyd “Diwrnod o Hwyl” ar y cae ar 2 Medi gyda’r bwriad o wahodd syniadau oddi wrth bawb am ddyfodol y fenter.**

Page 1263, item 12 (*Handyperson*): The children’s play equipment at King George 5<sup>th</sup> Playing Field has been painted. Sincere gratitude is extended to all the volunteers who completed the work in time for the Carnival week’s festivities. Likewise, the white lines on the tennis courts have finally been painted.

Tud. 1263, item 12 (*Pentop Playing Field*): The grass has finally been cut and cleared from the field. “A Fun Day” was held on the site on Saturday, 2 September with an invitation to all to offer ideas for its future use.

### 7. Gweithgareddau’r Maer. Dyddiadau i’w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fisoedd yr haf yn y cyfarfod.**

The Mayor’s Summer Calendar was distributed at the meeting.

### 8. Cynllunio / Planning:

<i>Rhify Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Observations</i>
A170553	Plot adjacent to 119 North Road	<i>Codi annedd.</i> Erection of dwelling.	<i>Nid oedd gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection. <i>Anfonwyd/sent 3/8/17</i>
A170686	Tŷ’r Morfa, Pontycleifion	<i>Codi pedwar adeilad allanol, sied amaethyddol, yn cynnwys adeiladau, tri stabl, stôr a chytiau.</i> Erection of four outbuildings, agricultural shed, building including three stables, store and kennels.	<i>Nid oedd gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> Council has no objection.
A170818	Tŷ’r Morfa, Pontycleifion	<i>Codi estyniad ac addasiadau.</i> Erection of an extension and alterations.	<i>Nid oedd gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> Council has no objection.
A170743	Hillcroft, Tenby Road	<i>Codi estyniad unllawr cefn, tynnu teras to a’r estyniad llawr cyntaf yn y cefn.</i>	The council would appreciate clarification on the present planning position of this property considering that the 2009 A070913 application

		Erection of rear single storey extension, removal of roof terrace and first floor rear extension.	was rejected. Once this information is available the council will then consider application A170743.
A170809/10	HSB Bank 11 High Street	Variation of condition 2 of application A160927: amended drawings to lessen impact structurally and within the building.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> Council supports the application.

**Cais A170743 (Hillcroft)—Yn dilyn archwiliad pellach, cytunwyd nad oedd angen rhagor o wybodaeth gan fod y mesuriadau cynlluniau i gyd wedi eu glynu.**

Application A170743 (Hillcroft)—Following further scrutiny, it was agreed that the council needs no further information regarding the use of the property as all stipulations have been adhered to.

**9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
27/7/17	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Gorffennaf / July)</i>	A3	4430	£756.36 (0.00)
27/7/17	Fisherman's Rest: <i>Lluniaeth Sefydlu'r Maer / Refreshments for Mayor's Installation. £283.33 (ad-daliad / repayment for Mayor's guests)</i>	A4	4431	£700.00 (116.67)
31/7/17	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Gorffennaf / July). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (4 &amp; 18 Gorffennaf / July) Band Lydan (Awst) / Broadband (August)</i>	A9	D/D	£250.00 (0.00)
		A9	4432	£50.00 (0.00)
		A20	4432	£20.00 (0.00)
31/8/17	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Awst / August). Band Lydan (Medi) / Broadband (September)</i>	A9	D/D	£250.00 (0.00)
		A20	4432	£20.00 (0.00)
31/8/17	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Awst / August)</i>	A3	4433	£756.36 (0.00)
11/7/17	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (4/7/17)</i>	A18	4434	£63.30 (0.00)
19/7/17	Telemat: IT support	A20	4435	£30.00 (5.00)
7/7/17	CCF: Multi-purpose compost for flower pots, Tomorite	C1	4436	£108.21 (17.31)
30/6/17	M. & E. Pearce Ltd.: <i>Cyfarpar i'r baneri / Material for bunting Paent at gyfarpar chwarae'r plant / Paint for King George 5<sup>th</sup> Playing Field children's play equipment</i>	C6	4437	£48.29 (8.05)
		C3	4437	£149.10 (24.85)
15/8/17	RoSPA: <i>Archwilio'r meysydd chwarae / Inspection of play areas: Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5<sup>th</sup> Playing Field. Maes Sgrialu / Skateboard Park.</i>	C3	4438	£79.80 (13.30)
		C5	4438	£79.80 (13.30)
7/8/17	Courtstall Services Ltd.: <i>Peintio'r llinellau gwyn ar y cyrtau tenis. Painting of white lines on tennis courts</i>	C3	4439	£432.00 (72.00) 40% deposit paid
18/7/17	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Cyfarpar swyddfa / Office stationery Gwahoddiadau a thafleuni Seremoni Sefydlu'r Maer / Invitations and Installation Leaflets for Mayor Making</i>	A7	4440	£116.40 (19.40)
		A4	4440	£168.00 (12.00)
31/7/17	Elfan Owens: <i>Torri gwair Cae Chwarae Pentop. Cutting of grass at Pentop play area.</i>	C12	4441	£150.00 (0.00)
31/7/17	<i>Bachan Deche / Handyperson: (Gorffennaf / July)</i>	A19	4442	£567.60 (94.60)
31/8/17		A19	4442	£429.00 (85.80)

**Cynigiodd y Cyng. Steffan Morgan bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths.**

Cllr Steffan Morgan proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Debra Griffiths.

**Derbyniadau / Receipts:**

9/6/17	Banc Lloyds Bank (Llog / Interest)	£3.13
12/7/17	Clwb Bowls Aberteifi / Cardigan Bowling Club (prydles / lease)	£400.00
10/7/17	Banc Lloyds Bank (Llog / Interest)	£2.98
31/7/17	Clwb Rygbi Aberteifi / Cardigan RFC (prydles / lease)	£400.00

**10. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod Cabinet y cyngor sir wedi cytuno i gynnig parcio am ddim o 10.00yb ymlaen ar dri Sadwrn cyntaf o fis Rhagfyr.
- (ii) Mae'r gwaith ar y ffordd gerllaw'r Ysgol Uwchradd wedi ei orffen mewn da bryd cyn i'r disgyblion ddychwelyd. Mae'r gwelliannau i'r palmant gyferbyn â Tesco yn mynd yn ei flaen.

**(b) Y Cyng. Catrin Miles (in absentia):**

- (i) Gwahoddir cynrychiolydd o gyngor y dref i gynorthwyo trefnu digwyddiadau misol codi arian ar bwyllgor Pwll Nofio Aberteifi. Gwirfoddolodd y Cyng. Wyn Jones a Steffan Morgan gynorthwyo.
- (ii) Pwll Nofio Aberteifi: Mae'r Pwll wedi ei dderbyn i geisio am gyllid M&S eleni eto (ar gyfer goleuadau LED). Cynhelir lansiad y gronfa ddydd Llun, 4 Medi; mae croeso i bawb i bleidleisio dros yr achos. Bydd linc ar gael ar gyfrif tudalen *Facebook* y Pwll.

**(a) Cllr John Adams-Lewis:**

- (i) Cllr Adams-Lewis stated that the county council Cabinet had agreed to allow free parking from 10.00am onwards during the first three Saturdays in December.
- (ii) The traffic-calming measures near Ysgol Uwchradd Aberteifi have been completed in good time before the re-start of the school year. The improvements to the pavement opposite to Tesco are on-going.

**(b) Cllr Catrin Miles (in absentia):**

- (i) A representative from the town council prepared to assist with monthly fund-raising activities is requested to serve on the Swimming Pool committee. Cllrs Wyn Jones and Steffan Morgan volunteered their services.
- (ii) Cardigan Swimming Pool: The Pool has been nominated to apply for M&S funding once again this year (towards LED lighting). The launch of the fund will take place on Monday, 4 September; everyone is welcome to vote for the project. A link is available on the Pool's *Facebook* page.

**11. Gohebiaeth / Correspondence.**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
90	CSC/CCC (Y Cyng./Cllr Ellen ap Gwynn): <i>Ymwybyddiaeth o Ofalwr e-ddysgu / Carer Aware e-learning.</i>	<i>Am ragor o wybodaeth / For further information:</i> Martin Gillard ( <i>Gweinyddwr y Cwrs/Business Support Officer</i> ): martin.gillard@ceredigion.gov.uk, 01545 574008. <i>Cytunodd y Cyng. Debra Griffiths a Sian Maherlein fynychu'r cwrs.</i> The above-named councillors agreed to attend the course.
91	CSC / CCC (Caroline A. Jones): <i>Ymgynghori ar Fersiwn Drafft Strategaeth Gorfforaethol 2017-22 y Cyngor Sir gan gynnwys Amcanion Llesiant a Gwella 2018-19.</i> Consultation on Ceredigion County Council's Corporate Strategy 2017-22 incorporating Wellbeing and Improvement Objectives 2018-19.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 15/8/17.
92	CSC / CCC (Jon Hadlow): <i>Ymateb i ohebiaeth cyngor y dref am drwydded ac asesiad risg i warchod Gerddi Victoria.</i> Response regarding the town council's request for a licence and the risk assessment forwarded regarding Victoria Gardens.	<i>Gweler eitem 100 isod.</i> Please see item 100 below.

93	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Digwyddiad Arbennig Cau'r Ffordd / Special Event Road Closure – Ras Casgen / Barrel Race, 6.00-9.00yh, 4/8/17.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 18/7/17.
94	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Ymateb gan ddweud mai dim ond un gwrthwynebiad a dderbyniwyd ynglŷn â'r cynllun arfaethedig er budd diogelwch ar y ffyrdd ger yr Ysgol Uwchradd; diystyrrwyd y gwrthwynebiad.</i> Response to the town council's letter informing that one only objection was received regarding the proposed scheme in the interest of road safety at the location of Ysgol Uwchradd Aberteifi; the objection was overruled.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 18/7/17.
95	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Ymgynghoriad Map Rhwydwaith Integredig.</i> Integrated Network Map Consultation. <i>Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar safle we'r cyngor sir.</i> Further details are available on the county council website.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 1/8/17.  <i>Gwahoddir argymhellion erbyn 9 Hydref.</i> Suggestions are invited by 9 October.
96	CSC / CCC (Katy Spain): <i>Ymateb negyddol i gais Canolfan Iechyd Ashleigh am barcio rhad yn ystod cyfnod brechiadau ffliw ym mis Hydref.</i> Negative response to Ashleigh Surgery's application for free parking to patients during the flu clinics in October.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 1/8/17.
97	CSC / CCC (Enfys James): <i>Cadarnhad y bydd Ms James yn bresennol i gyflwyno gwybodaeth am Ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia.</i> Confirmation that Ms James will present a discussion on Dementia Friends Awareness on 19 September.	<i>Cytunwyd bod gwahoddiad yn cael ei ymestyn i Fasnachwyr Aberteifi. Cytunodd y Cyng. Siân Maehrlein wyntyllu'r mater yn y cyfarfod.</i> It has been agreed that an invitation be extended to Cardigan Traders to attend the session. Cllr Siân Maehrlein agreed to inform the committee.
98	CSC / CCC (Tîm Trwyddedu / Licensing Team): <i>Polisi Drafft Casgliadau Stryd a Chasgliadau Elusennol o Dŷ i Dŷ.</i> Street Collections and House to House Charitable Collections Policy. <i>Holiadur / Questionnaire to be returned by 22 September.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 25/8/17.
99	CSC / CCC (Simon Edwards): <i>Gwybodaeth am bryderon ynglŷn â'r bagiau ailgylchu newydd.</i> Information regarding concerns for the new recycling bags.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 15/8/17.
100	CSC / CCC (Russell Hughes-Pickering): <i>Trwydded i gynnal y blodau yng Ngerddi Victoria.</i> Licence to maintain flower beds at Victoria Gardens.	<i>Trafodwyd amodau'r drwydded gan y cyngor a chytunwyd.</i> The conditions of the licence were discussed and agreed. <i>Cynigydd/Proposer: Y Cyng./Cllr Steffan Morgan.</i> <i>Eilydd/Seconder: Y Cyng./Cllr Wyn Jones.</i>
101	CSC / CCC (Kevin Kirkland): <i>Gwahoddiad i gontractwyr ddarparu gwasanaethau clirio eira ac unrhyw wasanaethau argyfwng perthnasol arall.</i> Invitation to contractors to provide a service for clearing snow and other emergency related services.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Poster has been displayed on the notice board.  <i>Dyddiad cau/Deadline: 30/9/17</i>
102	CSC / CCC (Sonia Davies): <i>Gwahoddiad i'r Maer i Agoriad Swyddogol Adeilad y Llyfrgell a'r Gwasanaethau Cwsmeriaid, Stryd Morgan, 28/9/17, 3.00yp.</i> Invitation to the Official Opening of the New Library and Customer Services Building, Morgan Street, 28/9/17, 3.00pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer ar 4/9/17.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor on 4/9/17.
103	<i>Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda /</i> Hywel Dda Community Health Council (Chief Executive): Welsh Government White Paper Consultation that proposes changes for health and social care.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 25/8/17.
104	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Ymgynghoriad Cyhoeddus o 22 Mehefin tan 15 Medi ar Gysylltu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion gyda Phobl Leol.</i> Hywel Dda University Health Board: Public Consultation from 22 June to 15 September to Connect Adult Mental Health Services with Local People.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 25/8/17.

105	<i>Llywodraeth Cymru: Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ysgol Penyparc): Terfynau cyflymder 40mya ac 20mya rhan-amser. Yn dod i rym ar 17/8/17.</i> Welsh Government: The A487 Trunk Road (Penyparc School) 40mph and part-time 20mph speed limits Order. Coming into force on 17/8/17.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 15/8/17.
106	Mr Ceri Adams-Lewis & Mr Robert Davies: <i>Awgrymiadau ynglŷn â chyfleusterau Clwb Pêl-droed Aberteifi.</i> Suggestions regarding facilities for Cardigan Football Club.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 3/8/17. <i>Cytunwyd trafod y materion yn Is-bwyllgorau 19 Medi.</i> It was agreed to discuss the matters at the September 19 Sub-committees.
107	Mr Roger Thomas, Sketty: <i>Copi o lythyr anfonwyd at Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynglŷn â safle Canolfan Iechyd Aberteifi.</i> Copy of letter sent to Hywel Dda University Health Board regarding the location of the Cardigan Integrated Care Centre.	<i>Cytunwyd bod y cyngor yn datgan ei gefnogaeth i sylwadau Mr Thomas.</i> It was agreed that the council supports Mr Thomas' observations.
108	Grant Thornton (External Auditors): Audit for the year ended 31 March 2017. Confirmation that the accounts have been certified. On the basis of the review, the information contained in the Annual Return is in accordance with proper practices and no matters have come to attention and all relevant legislation and regulatory requirements have been met.	<i>Mae'r "Hysbysiad o Gwblhau'r Archwiliad" o gyfrifon a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd ar 24 Awst am 14 diwrnod. Diolchwyd i'r clerc am sicrhau llwyddiant yr archwiliad.</i> The "Notice of Conclusion of Audit" for the accounts year ended 31 March 2017 has been displayed on the notice board on 24 August for 14 days. The clerk was thanked for ensuring the success of the audit.
109	<i>Cronfa Loteri Fawr / Big Lottery Fund: Cadarnhad o dderbyn y cais (Arian i Bawb) – Maes Sgrialu.</i> Confirmation that the application has been received (Skateboard Park).	<i>Nodwyd.</i> Noted.
110	<i>Theatr Byd Bychan / Small World Theatre: Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-Bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> To be discussed at the September Grants sub-Committee.
111	Age Cymru Ceredigion: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-Bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> To be discussed at the September Grants sub-Committee.
112	Riding for the Disabled Association: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-Bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> To be discussed at the September Grants sub-Committee. Application form has been forwarded on 1/9/17.
113	Michael Jefferies Injury Lawyers, Altrincham: <i>Manylion am ddamwain.</i> Details regarding accident.	<i>Cytunwyd bod y clerc yn gofyn am ragor o fanylion ynglŷn â'r ddamwain.</i> It was agreed that the clerk requests further details of the accident.
114	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Gorffennaf / Awst</i> Handyperson: July and August report	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12. <i>I'w trafod yn Is-bwyllgorau 19 Medi.</i> To be discussed at the 19 September Sub-committees.
115	Playsafety Ltd (RoSPA): <i>Adroddiadau archwilio'r meysydd chwarae.</i> Playing fields inspection reports.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau a'r Bachan Deche.</i> Copy forwarded to members and Handyperson, 15/8/17. <i>I'w trafod yn Is-bwyllgorau 19 Medi.</i> To be discussed at the 19 September Sub-committees.
116	Gwenda Mark (Land Art): <i>Ymholiad am berchnogaeth y tir ger y ganolfan hamdden.</i> Enquiry as to the ownership of land near the sports centre.	<i>Cytunodd y Cyng. Clive Davies drafod y cynllun yma, sydd yn ymwneud â phosiect plant ysgol, gyda Mrs Mark.</i> Cllr Clive Davies agreed to discuss this project involving schoolchildren with Mrs Mark.

<b>Caroline A. Jones:</b>	<i>Swyddog Perfformiad Corfforaethol a Gwella / Corporate Performance and Improvement Officer</i>
<b>Ellen ap Gwynn:</b>	<i>Arweinydd y Cyngor / Leader of the Council</i>
<b>Enfys James:</b>	<i>Swyddog Gweinyddol Gwasanaethau Ffordd o Fyw / Administrative Officer Lifestyle Services</i>
<b>Gari Jones:</b>	<i>Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy</i>
<b>Jon Hadlow:</b>	<i>Rheolwr Gerddi a Blodau / Grounds Maintenance Manager</i>
<b>Katy Spain:</b>	<i>Rheolwr Gwasanaethau Parcio / Parking Services Manager</i>
<b>Kevin Kirkland:</b>	<i>Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd Ymatebol / Highway Maintenance Reactive Manager</i>
<b>Louise Zerk:</b>	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures</i>
<b>Russell Hughes-Pickering:</b>	<i>Pennaeth Perfformiad a Gwelliant – Head of Performance and Improvement</i>
<b>Simon Edwards:</b>	<i>Rheolwr Cytundebau Gwastraff / Waste Contracts Manager</i>
<b>Sonia Davies:</b>	<i>Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr / Personal Assistant to the Chief Executive.</i>

**12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

**Cadarnhau Cofnodion yr Is-Bwyllgorau 18 Gorffennaf.**

Confirmation of 18 July Sub-Committee Minutes.

**Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Clive Davies bod cofnodion 18 Gorffennaf yn gywir.**

Cllr John Adams-Lewis proposed that the 18 July minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Clive Davies.

**Materion yn codi** Matters arising

**Tud. 1267 (c) (Pwll Nofio Aberteifi): Arweiniwyd saith cynghorydd a'r clerwr ar daith dywysedig o amgylch y safle gan swyddogion y Pwll ar 27 Gorffennaf.**

Page 1267 (c) (*Cardigan Swimming Pool*): Seven councillors and the clerk experienced a guided tour of the site by Pool officers on 27 July.

**Tud. 1268 (h) (Murlun Ystafell Radley): Mae'r clerwr wedi gwyntyllu'r syniad gyda swyddog Menter Aberteifi ac wedi cysylltu â Mr Glan Morgan ynglŷn ag archwilio'r murlun.**

Page 1268 (h) (*Ystafell Radley Mural*): The clerk has discussed the objective with a Menter Aberteifi officer and has also contacted Mr Glan Morgan regarding the care and restoration of the mural.

**Adroddiad y Bachan Deche: Cytunwyd trafod yr argymhelliad i gywiro'r ffens yn y man chwarae aml-bwrpas yng nghyfarfodydd Is-bwyllgorau 19 Medi. Diolchwyd i'r Bachan Deche am yr arddangosfa flodau arbennig yng nghanol y dref.**

*Handyperson's Report*: It was agreed to discuss the repairs to the fence at the multi-purpose play area at the 19 September Sub-committee meeting. The Handyperson was thanked for the excellent floral display throughout the town

**13. Personél / Personnel.**

**14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) **Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill:**

(i) **Meinciau picnic ar Gae Chwarae Brenin Siôr 5ed.**

**Cytunwyd bod y cyngor yn cefnogi'r awgrym mewn egwyddor a'i osod ar agenda cyfarfod blynyddol elusen Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed ar 11 Hydref.**

Picnic benches on King George 5<sup>th</sup> Playing Field.

The council supports the suggestion in principle and agreed to place the item on the agenda of the trustee AGM on 11 October.

(ii) **Maes parcio Maes Mwldan.**

**Cytunwyd anfon llythyr at y cyngor sir yn gofyn iddynt ystyried amwysedd y geiriau sydd yn ymddangos ar hysbysfwrdd prisiau'r maes parcio.**

Maes Mwldan car park.

It was agreed to forward a letter to the county council requesting an explanation regarding the ambiguity of the wording on the car park costings notice board.

(b) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies:**

(i) **Mynedfa newydd tu allan i'r Castell**

New entrance outside the Castle.

**Dywedodd y Cyng. Davies bod cais wedi ei anfon gan ymddiriedolwyr y Castell at y cyngor sir i ystyried cynnig prydles iddynt gymryd gofal am Ardd Brioude a chais cynllunio i osod clwydi newydd a mynedfa newydd i'r Castell.**

Cllr Davies stated that the Castle trustees had applied to the county council for a lease for the Brioude Garden and an application to provide a new entrance and gates for the Castle.

(ii) **Cyflwyno'r diffibrilwyr (Cronfa'r Maer).**

Presentation of defibrillators (Mayor's Fund).

**Mae'r safleoedd canlynol wedi eu clustnodi i osod y diffibrilwyr: Fferyllydd Huw Morgan, Pendre a chwrt Neuadd y Dref. Cynhelir cyflwyniad swyddogol gan y cynfaer, y Cyng. Clive Davies, yn y dyfodol agos.**

The following locations have been listed to house the defibrillators: Huw Morgan, Chemist, Pendre, and the Guildhall courtyard. The past Mayor, Cllr Clive Davies, will organise a presentation in the near future.

(c) **Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer:**

(i) **Or-dyfiant ar balmentydd gerllaw Cartref Yr Hafod.**

Brambles and bushes protruding onto the pavement adjacent to Yr Hafod home.

- Mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi trafod y mater gyda'r cyngor sir.**  
Cllr Adams-Lewis has raised the issue with the county council.
- (ii) **Ymholiadau oddi wrth aelodau'r cyhoedd ynglŷn â gwibdaith yr henoed.**  
Enquiries from members of the public regarding the Annual OAP Outing.  
**Cadarnhaodd y Maer na fyddai gwibdaith yn cael ei threfnu yn ystod ei flwyddyn faeroliaeth.**  
The Mayor confirmed that the outing would not take place during his mayoralty.
- (d) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:**
- (i) **Hen fainc anniben yn Heol Helyg.**  
Old, dilapidated bench at Heol Helyg.  
**Cytunwyd gofyn i'r cyngor sir symud y fainc o'r safle.**  
It was agreed to request the county council to remove the bench from the location.
- (ii) **Yr hen goeden sydd yn amharu ar gerddwyr a chadeiriau olwyn tu allan i Westy Tŷ Parc, Ffordd Gwbert.**  
**Nodwyd y sylwadau.**  
The old tree obstructing pedestrians outside Tŷ Parc, Gwbert Road.  
The observations were noted.
- (e) **Y Cyng. / Cllr Graham Evans (in absentia):**
- (i) **Llwybr Penrodyn: Gan nad yw'r cyngor sir wedi trasio'r cloddiau yn ystod yr haf, gofynnir i'r Bachan Deche wneud y gwaith ar ran cyngor y dre.**  
Penrodyn walkway: As the county council has not trashed the hedges at this location this summer, may the council request that the Handyperson completes the task on behalf of the town council.  
**Cytunwyd bod y Bachan Deche yn torri'r tyfiant.**  
It was agreed that the Handyperson would cut the hedgerow.
- (ii) **Cei Tywysog Siarl: Mae'r cyngor sir wedi codi ffens yn erbyn mur y cei oherwydd i lechi syrthio. Mae pryder bod y tyfiant rhwng y ffens a'r mur yn bygwth achosi difrod os na chymerir camau i'w glirio.**  
Prince Charles quay: The county council has erected a fence to prevent further damage to the loose tiles on the wall. Cllr Evans has concerns that the growth of weeds between the fence and the wall will cause severe damage to the wall unless cleared.  
**Cytunwyd gofyn i'r cyngor sir gywiro'r llechi a'u hailosod a hefyd symud y ffens yn gyfangwbl oddi ar y safle.**  
It was agreed to request the county council to repair and replace the slates at the location and thereafter remove the fence.
- (f) **Dyddiadau i'w trefnu / Dates to be arranged:**
- (i) **Cyfarfod Sul y Cadoediad / Pre-remembrance Sunday meeting (10/10/17)**
- (ii) **Cyfarfod Blynnyddol Ymddiriedolwyr Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed.**  
Annual General Meeting, King George 5<sup>th</sup> Playing Field Trustees (11/10/17)
- (iii) **Is-Bwyllgor Rhoddion / Grants Sub-committee (26/9/17)**
- (iv) **Dyddiad archwiliad mewnol gan gynghorwyr a enwebwyd.**  
Paper trail of accounts by nominated members.  
(Y Cyng. / Cllrs Marilyn Farmer, Shan Williams)
- (v) **Cyfarfod gyda chlerc a chynghorwyr Cyngor Cymuned Llandudoch.**  
Meeting with clerk and councillors of St Dogmaels Community Council.  
(Cynghorwyr ward Teifi / Teifi ward councillors, 14/9/17, 7.00pm, Memorial Hall).  
**Dymunodd y Cyng. Richard Jones a Steffan Morgan fynychu'r cyfarfod.**  
Cllrs Richard Jones and Steffan Morgan also wish to attend the meeting.
- (vi) **Is-bwyllgor Goleuadau Nadolig / Christmas Lights Sub-committee:**  
Maer, Dirprwy Faer, y Cyngh. / Cllrs Clive Davies, Graham Evans, Wyn Jones
- (vii) **Er gwybodaeth: Bydd y clerc ar ei wyliau o 14-23 Medi.**  
For information: The clerk will be on holidays from 14-23 September.

**Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.42yh**  
*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.42pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....